| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Rhagfyr 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Barbara Smith - Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad**<br>**Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Cynllun Gwella Llywodraethu** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gwella Llywodraethu'r Cyngor sy'n deillio o 'ddatganiad llywodraethu blynyddol' y Cyngor 2013/14 – 'Sicrhau llywodraethu da a gwelliant parhaus'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cynnydd sy'n digwydd o ran rhoi'r gwahanol gamau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gwella Trefn Lywodraethol y Cyngor ar waith, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor drefn lywodraethol gadarn ac effeithiol ar waith.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn adolygu a rhoi sylwadau ar yr adroddiad cynnydd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Teitl 'datganiad llywodraethu blynyddol' diweddaraf y Cyngor oedd 'Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus'. Roedd y ddogfen hon yn darparu hunanasesiad eglur a chytbwys o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan dynnu sylw at unrhyw wendidau llywodraethu arwyddocaol a meysydd eraill i'w gwella.

Roedd y meysydd gwella wedi eu cynnwys mewn Cynllun Gwella Llywodraethu, sydd hefyd yn cynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau, y swyddogion sy'n gyfrifol am y camau gweithredu, ac amserlenni. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd gyda'r Cynllun Gwella Llywodraethol wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Er nad yw'r hunanasesiad 'datganiad llywodraethu blynyddol' yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol, mae'n darparu asesiad a sicrwydd ar ddarpariaeth y Cynllun Corfforaethol, perfformiad gweithredol ac ariannol y Cyngor,

trefniadau llywodraethu, ymgysylltu â'r gymuned ac ati sydd i gyd yn cael eu cyfeirio tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau ynghlwm wrth yr adroddiad hwn, a'r unig effaith ar wasanaethau yw lle mae'r adroddiad yn nodi meysydd gwella; ond, bydd gwasanaethau eisoes yn ymwybodol o'r rhain a dylent fod yn eu cynnwys yn eu cynlluniau gwasanaeth.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal â'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

Mae hwn yn adroddiad er gwybodaeth yn unig. Roedd yr unig ymgynghoriad gyda'r swyddogion sydd â chyfrifoldeb am weithredu'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gwella Llywodraethu.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Pe na bai'r Cynllun Gwella Llywodraethu yn cael ei weithredu, byddai gwendidau yn aros yn nhrefn lywodraethol y Cyngor, a allai arwain at:

- adroddiadau rheoleiddiol niweidiol;
- defnydd gwael o arian cyhoeddus;
- methiant i wella meysydd corfforaethol a meysydd gwasanaeth allweddol;
- colli hyder budd-ddeiliaid; ac
- effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes angen gwneud penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn, ond mae gofyniad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i'r 'pwyllgor archwilio' oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.